Pecyn Dogfen Cyhoeddus


At: Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu

Dyddiad: 28 Tachwedd 2019

Rhif Union: 01824 712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk


Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MERCHER, 4 RHAGFYR 2019** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 7 - 12)

Derbyn cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2019 (copi ynghlwm).

**5 NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I FFIOEDD A THALIADAU TRWYDDEDU TACSI** (Tudalennau 13 - 18)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth aelodau i'r ffioedd a thaliadau arfaethedig sy'n ymwneud â'r drefn trwyddedu tacsis.

**6 ADOLYGU'R BROSES GORSAFOEDD PROFI CYMERADWY PRESENNOL** (Tudalennau 19 - 28)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn ceisio adolygiad yr aelodau o'r broses bresennol i enwebu gorsafoedd profi cymeradwy i gynnal profion cydymffurfio ar gerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yn y sir.

**7 ADOLYGIAD O BOLISI A GWEITHDREFN PWYNTIAU COSB** (Tudalennau 29 - 44)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm), yn ceisio cefnogaeth aelodau i wneud i ffwrdd â'r broses Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb.

**8 POLISI ARFAETHEDIG CASGLIADAU DRWS I DDRWS** (Tudalennau 45 - 56)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn cyflwyno'r Polisi Casgliadau Drws i Ddrws Arfaethedig ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol cyn ei gymeradwyo.

**9 POLISI CASGLIADAU STRYD ARFAETHEDIG** (Tudalennau 57 - 66)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn cyflwyno'r Polisi Casgliadau Stryd Arfaethedig ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol cyn ei gymeradwyo.

**10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU** (Tudalennau 67 - 70)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn cyflwyno rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor.

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

Dim Eitemau.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Hugh Carson Irving (Cadeirydd) Brian Jones (Is-Gadeirydd)

Joan Butterfield
Alan Jones
Richard Mainon
Barry Mellor
Melvyn Mile
Arwel Roberts
Rhys Thomas
Tony Thomas
Huw Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**PWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 12 Mehefin 2019 am 9.30 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Hugh Irving, Alan James, Brian Jones, Richard Mainon, Barry Mellor, Melvyn Mile, Arwel Roberts, Rhys Thomas, Tony Thomas a Huw Williams

**Arsylwr –** y Cynghorydd Meirick Davies

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cyfreithiwr (AL), Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM), Swyddog Trwyddedu (NJ), Swyddogion Gorfodi Trwyddedu (HB a KB) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

**PWYNT SYLW**

Gohiriwyd y cyfarfod nes 9.50am oherwydd amhariad teithio a achoswyd gan y dŵr wyneb a'r problemau llifogydd yn yr ardal a effeithiodd ar bresenoldeb. Newidiwyd trefn eitemau'r agenda er mwyn sicrhau bod y Cyfreithiwr yn bresennol ar gyfer yr eitemau busnes hynny yr oedd ar y Pwyllgor angen Cynghorwr Cyfreithiol (eitemau 8-10 ar y cofnodion).

**1 YMDDIHEURIADAU**

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**2 PENODI CADEIRYDD**

Ceisiwyd enwebiadau ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2019/20. Cynigiodd y Cynghorydd Tony Thomas y dylid penodi'r Cynghorydd Hugh Irving yn Gadeirydd, ac fe eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Huw Williams. Cynigiodd y Cynghorydd Joan Butterfield y dylid penodi'r Cynghorydd Alan James yn Gadeirydd ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Barry Mellor. Gan nad oedd unrhyw enwebiadau eraill ac o'i roi i'r bleidlais -

***PENDERFYNWYD** penodi'r Cynghorydd Hugh Irving yn Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.*

**3 PENODI IS-GADEIRYDD**

Gofynnwyd am enwebiadau gan y Cadeirydd ar gyfer Is-Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2019/20. Cynigiodd y Cynghorydd Joan Butterfield y dylid penodi'r Cynghorydd Alan James yn Is-Gadeirydd ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Barry Mellor. Cynigiodd y Cynghorydd Richard Mainon y dylid penodi'r

Cynghorydd Brian Jones yn Gadeirydd ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Tony Thomas. Gan nad oedd unrhyw enwebiadau eraill ac o'i roi i'r bleidlais -

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd Brian Jones yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.*

**4 DATGAN CYSYLLTIAD**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

**5 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**6 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2019.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2019 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.*

**7 BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (dosbarthwyd yn flaenorol) ar Raglen Gwaith y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2019/20.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol fel y mae yn atodiad i'r adroddiad.*

**8 DIWEDDARIAD AR Y DATGANIAD POLISI YNGHYLCH ADDASRWYDD YMGEISWYR A THRWYDDEDAU YN Y MASNACHAU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn cyflwyno Datganiad Drafft y Polisi sy'n ymwneud ag addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwydded yn y masnachau cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat i'w cymeradwyo o 1 Gorffennaf 2019.

Ar 5 Rhagfyr 2018, penderfynodd y Pwyllgor Trwyddedu fabwysiadu canllawiau'r Sefydliad Trwyddedu a rhoi cyfarwyddyd i'r Swyddogion ddrafftio polisi a oedd yn bodloni'r gofynion yn y ddogfen dan sylw. Ers hynny mae llawer o waith wedi cael ei wneud i ymgysylltu â deiliaid trwydded a chodi ymwybyddiaeth o'r Canllawiau, a oedd yn cynnwys newyddlen i holl aelodau'r fasnach drwyddedig, ymgyrch cyfryngau cymdeithasol a nifer o gymorthfeydd trwyddedu drwy'r sir. Y bwriad oedd cymhwyso'r polisi i'r holl ddeiliaid trwydded newydd o 1 Gorffennaf 2019, a dim ond os bydd euogfarnau ychwanegol yn cael eu cronni y byddai'r deiliaid trwydded presennol yn cael eu hadolygu. O ystyried bod y Cyngor yn mabwysiadu polisi cenedlaethol, nodwyd y gellid gwneud newidiadau yn genedlaethol a gofynnwyd i'r aelodau ystyried a ddylid awdurdodi swyddogion i fabwysiadu mân newidiadau heb

adrodd yn ôl i'r Pwyllgor. Lle gwnaed newidiadau sylweddol, argymhellwyd bod swyddogion yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau yn y cyfarfod nesaf sydd ar gael.

Yn ystod y drafodaeth, roedd yr aelodau'n siomedig iawn i nodi mai dim ond tri deiliad trwydded oedd wedi mynd i'r cymorthfeydd trwyddedu, yn enwedig o gofio'r ymdrechion sylweddol a wnaed gan swyddogion i ymgysylltu â'r fasnach. Yn ogystal â'r ymgyrch cyfryngau cymdeithasol, cadarnhaodd swyddogion fod newyddlen wedi'i anfon at bob deiliad trwydded yn y sir. Cyfeiriwyd at waith caled y swyddogion a'r aelodau wrth adolygu a mabwysiadu polisïau'n barhaus er mwyn codi safonau ac effeithio ar welliannau o fewn y fasnach drwyddedig. Y Datganiad Polisi oedd y ddogfen ddiweddaraf o fewn y broses honno o welliant parhaus. Heb ystyried y diffyg ymateb gan y fasnach er gwaethaf yr ymdrechion gorau i'w cynnwys yn y broses, derbyniwyd bod pob deiliad trwydded wedi cael digon o gyfle i ymateb ac felly cytunodd yr aelodau i fabwysiadu'r polisi ac awdurdodi swyddogion i fabwysiadu unrhyw newidiadau dilynol a wnaed yn genedlaethol. Fodd bynnag, cynigiodd y Cynghorydd Joan Butterfield, ac eiliwyd gan y Cynghorydd Alan James, os derbynnir unrhyw gwyn neu ymholiad yn y dyfodol gan ddeiliaid trwydded ynglŷn â'r ddogfen, fod swyddogion yn cael eu hawdurdodi, wedi ymgynghori â'r Cadeirydd, i ymateb gan gadarnhau na fydd y mater yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor oherwydd bod y cyfle i ymateb i'r Datganiad Polisi wedi dod i ben. O'i roi i'r bleidlais -

***PENDERFYNWYD*** –

(a) *Mabwysiadu'r Datganiad Polisi ar addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau ym musnesau cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat (sydd ynghlwm wrth Atodiad A), i'w weithredu ar 1 Gorffennaf 2019;*

(b) *Awdurdodi swyddogion i wneud y newidiadau a nodir yn 4.8 uchod, fel bod y Datganiad Polisi ar Addasrwydd Ymgeiswyr a Deiliaid Trwyddedau ym Musnesau Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat yn gyson â'r ddogfen ganllawiau genedlaethol; a*

(c) *Os derbynnir unrhyw gwyn neu ymholiad gan ddalwyr trwydded ynglŷn â'r Datganiad Polisi, bod swyddogion yn cael eu hawdurdodi, wedi ymgynghori â'r Cadeirydd, i ymateb gan gadarnhau na fydd y mater yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Trwyddedu oherwydd bod y cyfle i ymateb i'r ddogfen bolisi wedi dod i ben.*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

**9 CAIS AM DRWYDDED AR GYFER CERBYD HURIO PREIFAT**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (dosbarthwyd yn flaenorol) ar –

(i) gais yn cael ei dderbyn am Drwydded Cerbyd Hurio Preifat;

(ii) swyddogion nad oeddent wedi bod mewn sefyllfa i ganiatáu'r cais gan nad oedd y cerbyd a gyflwynwyd ar gyfer trwyddedu yn cydymffurfio â pholisi'r Cyngor o ran y terfyn oedran pum mlynedd ar gyfer cerbydau a drwyddedwyd o dan gais newydd;

(iii) amodau ychwanegol yn gymwys i drwyddedu mathau o gerbydau arbenigol fel yr un a gyflwynir yn yr achos hwn, ynghyd â ffotograffau o'r cerbyd dan sylw'r cais, a

(iv) gwahoddwyd yr ymgeisydd i fynychu'r cyfarfod i gefnogi'r cais ac ateb cwestiynau'r aelodau.

Roedd yr Ymgeisydd yn bresennol a chadarnhaodd ei fod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r pwyllgor.

Crynhodd y Swyddog Trwyddedu yr adroddiad ac eglurodd fod yr Ymgeisydd wedi cyflwyno'r cerbyd fel cerbyd wrth gefn ar gyfer trwyddedu yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor, ond ar ôl meddwl roedd wedi symud ymlaen gyda'r cerbyd gwreiddiol fel y manylwyd ar ei ffurflen gais, a ganiatawyd wedi hynny. Fodd bynnag, nid oedd yr Ymgeisydd erioed wedi defnyddio'r cerbyd trwyddedig ac yn hytrach byddai'n well ganddo drwyddedu'r cerbyd wrth gefn. Mae polisi'r Cyngor yn nodi na ddylai cerbydau sy'n destun cais newydd fod yn hŷn na phump oed ac roedd y cerbyd a gyflwynwyd i'w drwyddedu yn un ar ddeg oed. O ganlyniad, gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais yr Ymgeisydd i wyro oddi wrth polisi'r Cyngor a chaniatáu'r cais.

Cyflwynodd yr Ymgeisydd ei achos gan ddweud ei fod yn weithredwr cerbydau arbenigol cyfrifol, hirsefydlog ond ei fod wedi mynd yn groes i'r fanyleb newydd o ran oedran cerbyd. Cyfeiriodd at ei gyflwyniad gerbron y Pwyllgor Trwyddedu diwethaf pan gafodd drwydded cerbyd, yn groes i'r terfyn oedran pump oed, ar sail y math o gerbyd, sef cerbyd moethus arbenigol a ddefnyddir ar gyfer achlysuron a digwyddiadau penodol a drefnir ymlaen llaw. Ers prynu'r cerbyd hwnnw, roedd wedi caffael model newydd, gwell - a dyna pam y gwnaeth gais dilynol i'r Pwyllgor Trwyddedu. Wrth ymhelaethu ar rinweddau'r cerbyd arfaethedig ar gyfer trwyddedu, rhoddodd dystiolaeth o amserlenni cynnal a chadw a gwasanaeth ynghyd â sicrwydd ynghylch safonau cerbydau uchel. Mewn ymateb i gwestiynau, ymhelaethodd ymhellach ar natur a gweithrediad ei fusnes. Nododd yr Ymgeisydd nad oedd ganddo unrhyw beth pellach i'w ychwanegu o ran datganiad terfynol.

Oedwyd y cyfarfod er mwyn ystyried y cais a -

***PHENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cais am Drwydded Cerbyd Hurio Preifat yn amodol ar yr amodau ychwanegol a nodwyd yn Atodiad 2 yr adroddiad.*

Dyma resymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu -

Roedd yr Aelodau wedi ystyried y cais a'r achos a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd yn ofalus ac wedi nodi natur a math y busnes a weithredir, a'i fod yn weithredwr ag iddo enw da am wasanaethau arbenigol o'r fath. Ar y sail honno ac ar ôl ystyried yn benodol y math o gerbyd y bwriedir ei drwyddedu, cytunodd yr aelodau y gwnaed achos i wyro oddi wrth eu polisi terfyn oedran yn yr achos hwn a chaniatáu'r cais fel ag yr oedd, yn amodol ar yr amodau ychwanegol sy'n berthnasol i'r math o gerbyd arbenigol.

Roedd penderfyniadau a rhesymau'r Pwyllgor felly wedi eu cyfleu i'r Ymgeisydd.

**10 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 533519**

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (wedi'i ddosbarthu'n flaenorol) -

(i) cais a dderbyniwyd gan Ymgeisydd Rhif 533519 am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat;

(ii) yr Ymgeisydd wedi methu â datgelu tri euogfarn droseddol a rhybudd gan yr heddlu yn ymwneud â throseddau a gyflawnwyd rhwng 1977 - 2000 a ddatgelwyd yn dilyn gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd;

(iii) dogfennaeth berthnasol yn ymwneud â'r achos, gan gynnwys cyfweliad ffurfiol yr Ymgeisydd ac esboniad o'r amgylchiadau sy'n ymwneud â'r euogfarnau a'r rhesymeg dros beidio â datgelu wedi eu hatodi i'r adroddiad, ac

(iv) estyn gwahoddiad i'r Ymgeisydd ddod i'r cyfarfod i gefnogi ei gais ac i ateb cwestiynau'r aelodau.

Roedd yr Ymgeisydd yn bresennol gyda pherthynas a chadarnhaodd ei fod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r pwyllgor.

Crynhodd y Swyddog Gorfodi (HB) yr adroddiad a ffeithiau'r achos.

Rhoddodd yr Ymgeisydd rywfaint o gyd-destun i'r euogfarnau hanesyddol a'i amgylchiadau personol yn ystod y cyfnod hwnnw, ac eglurodd hefyd sut mae ei fywyd wedi newid ers hynny gyda'r bwriad o ddangos ei fod yn unigolyn cyfrifol a dibynadwy ac yn berson addas a phriodol i feddu ar drwydded. Darparwyd geirda gan gyflogwr presennol yr Ymgeisydd yn tystio i'w gymeriad da, ei gysylltiadau cwsmeriaid rhagorol a'i agwedd bositif, ac roedd perthynas gydag o a siaradodd ar ei ran hefyd. Ymatebodd hefyd i gwestiynau a godwyd gan aelodau gyda'r nod o ganfod ei addasrwydd i feddu ar drwydded. Mewn perthynas â'i fethiant i ddatgelu euogfarnau, eglurodd yr Ymgeisydd na fu unrhyw fwriad i dwyllo o ystyried ei fod wedi darparu'r holl fanylion angenrheidiol i alluogi gwiriad yr heddlu, ond roedd wedi meddwl mai ymwneud yn benodol â dedfrydau carchar ydoedd a bod ei euogfarnau wedi hen dreulio.

Oedwyd y cyfarfod er mwyn ystyried y cais a -

***PHENDERFYNWYD*** *cymeradwyo cais Ymgeisydd Rhif 533519 am drwydded gyrru cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat.*

Dyma resymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu -

Roedd yr Aelodau wedi ystyried y cais a'r achos a wnaed gan yr Ymgeisydd i ganiatáu trwydded yn ofalus. Nododd y Pwyllgor fod yr euogfarnau wedi cael eu gosod gryn amser yn ôl a bod yr Ymgeisydd wedi cael digwyddiadau newid bywyd sylweddol ers hynny. Roedden nhw'n fodlon bod y perygl o aildroseddu yn isel. Canfu'r Pwyllgor fod yr Ymgeisydd yn ddilys yn ei gyflwyniadau ac yn onest wrth ymateb i gwestiynau, a derbyniwyd ei esboniad o ran y diffyg datgelu gan gredu nad oedd ganddo nod bwriadol i dwyllo. Ystyriwyd bod yr Ymgeisydd wedi dangos, trwy ei gyflwyniadau, cyfeirnod cymeriad a chefnogaeth deuluol, ei fod yn gyfrifol, yn ddibynadwy ac o gymeriad da ac felly'n berson addas a phriodol i feddu ar drwydded. Fodd bynnag, pwysleisiodd yr aelodau bwysigrwydd datgelu'n llawn ac yn gywir yn y dyfodol wrth yr Ymgeisydd.

Roedd penderfyniadau a rhesymau'r Pwyllgor felly wedi eu cyfleu i'r Ymgeisydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.00 a.m.

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 4 Rhagfyr 2019 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Trwyddedu (Technegol)<br>trwyddedu@sirddinbych.gov.uk<br>01824 706451 |
| **TESTUN:** | Newidiadau Arfaethedig i Ffioedd a Thaliadau Trwyddedu Tacsi |

**1.0 PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 Gofyn am gymeradwyaeth Aelodau ar gyfer newidiadau arfaethedig mewn ffioedd a thaliadau i'r drefn trwyddedu tacsi.

**2.0 CRYNODEB GWEITHREDOL**

2.1. Gofynnir i'r aelodau ystyried cymeradwyo ffioedd diwygiedig ar gyfer trefn Trwyddedu Cerbydau Hacni a Hurio Preifat sef gweithredwr, cerbyd, rhai mathau o drwyddedau gyrrwr a phrofion gwybodaeth.

**3.0 PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD**

3.1 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847.

**4.0 GWYBODAETH GEFNDIR**

4.1 Mae Adrannau 53 a 70 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 ("y Ddeddf") yn caniatáu'r Cyngor i godi ffioedd i roi trwyddedau mewn perthynas â gyrwyr cerbydau hacni a hurio preifat, cerbydau a gweithredwyr.

4.2 Gellir adfer cost cyflwyno a gweinyddu yn ffioedd trwydded gyrwyr. Mewn perthynas â thrwyddedau cerbyd a gweithredwr, gellir cynnwys cost rhesymol archwilio cerbydau, darparu stand cerbydau hacni ac unrhyw gostau gweinyddu rhesymol neu gostau eraill mewn cysylltiad â'r blaenorol a chyda rheoli a goruchwylio cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yn y ffioedd.

4.3 Ni ellir cynnwys y gost ar gyfer gorfodi gyrwyr, cerbydau neu weithredwyr heb drwydded yn y cyfrifiad.

4.4 Ni all y Cyngor wneud elw o ffioedd trwydded a dylid dygwyl ymlaen unrhyw weddill, i'r gwrthwyneb gellir hefyd adfer unrhyw ddiffyg. Mae cysoni unrhyw weddill a diffyg dros gyfnod o dair blynedd.

4.5 Ers Hydref 2015 gellir cyflwyno trwyddedau am fwyafswm o 5 mlynedd i weithredwyr, 3 blynedd i yrwyr a blwyddyn i gerbydau ac mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r arfer hwn.

4.6 Mae methodoleg ffioedd a thaliadau wedi'i ddyfeisio i alluogi adolygiad manwl o ffioedd a thaliadau yn unol â'r broses drwyddedu berthnasol.

4.7 Mae'r strwythurau ffioedd presennol ac arfaethedig yn Atodiad A.

4.8 Roedd y cynnydd diwethaf mewn ffioedd a thaliadau trwyddedu tacsi yn Ebrill 2018, er mae'r ffioedd ar gyfer cerbydau wedi aros yr un fath am 11 mlynedd.

4.9 Mae deddfwriaeth yn caniatáu ar gyfer cyhoeddi trwydded am gyfnod byrrach mewn amgylchiadau arbennig mewn achos unigol, ond mae'n rhaid i hyn fod o ganlyniad i achos unigol, nid oherwydd polisi cyffredinol.

4.10 Bydd aelodau yn dymuno nodi os byddant yn cymeradwyo'r tabl ffioedd diwygiedig yna mae Adran 70 o'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt hysbysebu yn y wasg leol gan roi o leiaf 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiad.

4.11 Os bydd yna unrhyw wrthwynebiad o ganlyniad i hysbysebu, yna bydd angen ystyried y rhain ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn, ynghyd ag unrhyw adolygiadau a ystyrir yn briodol.

4.12 Os nad oes unrhyw wrthwynebiad yna bydd y ffioedd hyn yn dod i rym ar 1 Ebrill 2020.

4.13 Mae'n hanfodol bod ffioedd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod ffioedd yn gymesur ac yn unol â chostau perthnasol. O ystyried y gall costau cysylltiedig gynyddu yn flynyddol ac y gall prosesau newid mae swyddogion yn cynnal adolygiad yn flynyddol.

4.14 Yn olaf, mae Swyddogion yn dymuno atgoffa Aelodau ers cyflwyno'r trwyddedau gyrru bob tair blynedd, mae gyrwyr yn dilyn proses GDG 3 blynedd ac i sicrhau nad yw gyrwyr y tu allan i'r cylch GDG o dan anfantais, mae'r trwyddedau blynyddol yn cael eu cynnal nes bydd GDG gyrrwr yn

ddyledus. Bydd Aelodau hefyd yn cofio bod y gwasanaeth GDG ar gontract a bod gyrwyr nawr yn gyfrifol am drefnu eu gwiriadau GDG eu hunain. Nid yw cost hyn wedi'i gynnwys yn y ffi trwydded yrru.

**5.0 YMGYNGHORIADAU**

5.1 Fel y nodwyd ym mharagraff 4.10 uchod mae'n ofynnol cyhoeddi ffioedd arfaethedig sydd wedyn yn ddarostyngedig i gyfnod gwrthwynebiad 28 diwrnod.

5.2 Mae'r Pennaeth Cynllunio a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd wedi adolygu'r ffioedd arfaethedig ac yn cefnogi'r rhai a restrir yn Atodiad A.

**6.0 ARGYMHELLION**

6.1 Bod yr Aelodau yn:

1) Cymeradwyo'r ffioedd a'r taliadau fel y manylwyd yn Atodiad A.

2) Awdurdodi swyddogion i gyhoeddi'r newidiadau arfaethedig i'r ffioedd Trwyddedu Tacsi mewn papur newydd lleol ar gyfer yr ymgynghoriad angenrheidiol ac os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiad, byddant yn dod i rym ar 1 Ebrill 2020.

3) Lle derbynnir unrhyw wrthwynebiadau, gofyn i'r Pwyllgor Trwyddedu ystyried y gwrthwynebiadau hynny yn eu cyfarfod nesaf gyda'r bwriad o weithredu (gyda neu heb addasiad) dim hwyrach nag 1 Ebrill 2020.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Atodiad A**

**FFIOEDD A THALIADAU TRWYDDEDU**

| Trwydded / Gweithgaredd | Cyfredol | Arfaethedig |
|---|---|---|
| Gweithredwyr Hurio Preifat (hyd at 10 cerbyd) – 5 mlynedd | 420.00 | 500.00 |
| Gweithredwyr Hurio Preifat (i bob 10 cerbyd) – 5 mlynedd | 250.00 | 200.00 |
| Cerbyd Hacni NEWYDD (Blynyddol) | 200.00 | 230.00 |
| ADNEWYDDU Cerbyd Hacni (Blynyddol) | 200.00 | 215.00 |
| Cerbyd Hurio Preifat NEWYDD (Blynyddol) | 200.00 | 220.00 |
| ADNEWYDDU Cerbyd Hurio Preifat (Blynyddol) | 200.00 | 210.00 |
| Gyrrwr (3 blynedd) NEWYDD | 270.00 | 270.00 |
| Gyrrwr (3 blynedd) ADNEWYDDU | 270.00 | 230.00 |
| Gyrrwr (Blynyddol) NEWYDD | 250.00 | 250.00 |
| ADNEWYDDU Gyrwr (Blynyddol) 1a2 | 170.00 | 170.00 |
| Gyrrwr (Blynyddol) 3ydd blwyddyn | 200.00 | 200.00 |
| AIL SEFYLL Prawf Gwybodaeth | 35.00 | 35.00 |
| Trosglwyddo Perchennog Cerbyd | 60.00 | 40.00 |
| Newid Plât Cefn | 35.00 | 35.00 |
| Newid Plât Blaen | 30.00 | 30.00 |
| Newid Arwydd (SENGL) | 25.00 | 25.00 |
| Newid Arwydd (PÂR) | Amherthnasol | 30.00 |
| Newid Bathodyn | 25.00 | 25.00 |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 4 Rhagfyr 2019 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu)<br>trwyddedu@sirddinbych.gov.uk<br>01824 706433 |
| **TESTUN:** | **Adolygu proses Gorsaf Brofi Cymeradwy presennol** |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 I'r Aelodau ystyried adolygu'r broses gyfredol o enwebu gorsafoedd profi cymeradwy i gyflawni profion cydymffurfiaeth cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat o fewn y Sir, ac i ystyried rhai opsiynau i wella'r drefn bresennol.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Ceisio safbwyntiau'r Aelodau ar y broses bresennol ac i geisio cymeradwyaeth pellach i adolygu ac ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ar well broses ac un mwy diweddar.

2.2 Dan ddarpariaethau'r Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, mae gan yr awdurdod trwyddedu ddyletswydd i sicrhau bod cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat yn fathau addas, yn gyfforddus ac mewn cyflwr mecanyddol addas i fod yn ddiogel ar gyfer eu pwrpas.

2.3 Drwy adolygu'r broses bresennol ar gyfer Gorsafoedd Profi a enwebir, i sefydlu os yw dal yn ateb y gofyn ac argymell gwelliannau i sicrhau cysondeb a chydymffurfiaeth ar draws y Sir.

## 3. GWYBODAETH GEFNDIR

3.1 Ar hyn o bryd, mae gan Sir Ddinbych 8 Gorsaf Brofi wedi'u henwebu ar draws y Sir, 5 yn y Gogledd (un yn y Ganolfan Rheoli Fflyd y Sir ym Modelwyddan) a 3 yn y De, y mae'r Gwasanaeth Fflyd yn eu

cymeradwyo bob blwyddyn.

3.2 Mae'r ffioedd a godir am brawf cydymffurfio, gan y Gorsafoedd Profi yn cael eu gosod gan y garejys unigol ac yn amrywio yn ôl y garej. Mae'r amrywiad yng nghost y profion yn achosi pryder ymysg Swyddogion bod prisio cystadleuol yn gysylltiedig â lleihad yn ansawdd y prawf.

3.3 Yn 2010, bu i'r Aelodau gymeradwyo'r proses i drwyddedu pob Gorsaf Brofi gymeradwy o fewn y Sir a oedd yn cyflawni profion cydymffurfiaeth ar ran y Cyngor. Rhagwelwyd drwy gyflwyno proses safonedig i orsafoedd profi, a fydd mewn tro yn sicrhau cysondeb ar draws y Gorsafoedd Profi.

3.4 Roedd y broses yn cynnwys y canlynol:

1. Defnyddio arbenigwyr sydd yn bodoli o fewn Adran Rheoli Fflyd y Sir i sicrhau bod Polisi'r Cyngor mewn perthynas â'i safonau yn briodol ac yn gyson ar draws y Sir i sicrhau bod diogelwch a chyfforddusrwydd i deithwyr yn cael ei gynnal.
2. Bydd gofyn i Orsafoedd Profi gofnodi gwybodaeth ynghylch gofynion profi sydd ei angen gan y Cyngor, a chyflwyno'r wybodaeth o fewn 24 awr o'r prawf drwy FFACS i'r Adran Gwasanaethau Fflyd ym Modelwyddan, a chyflwyno adroddiad yn wythnosol i'r Tîm Gweinyddol trwyddedau o'r holl gerbydau sydd wedi cael eu profi yn y saith niwrnod diwethaf, pa un' ai yw'r cerbyd wedi pasio/ methu/ ei gynghori.
3. Bydd Gorsafoedd Prawf yn ddarostyngedig i ymweliadau goruchwylio gan unigolion cymwys a fydd, yn ôl y galw yn rhoi'r cyfle i weld y broses profi ac archwilio unrhyw offer a ddefnyddir i gyflawni'r prawf.
4. Bydd y Gorsafoedd Profi yn cydymffurfio a dilyn "Canllaw Arfer Orau Safonau Archwiliad Cenedlaethol ar gyfer Cerbyd Hacni a Cherbydau Hurio Preifat" a gyhoeddwyd gan y Rhwydwaith Cludiant Awdurdod Cyhoeddus (PATN).

3.5 Mae gorsafoedd profi cymeradwy yn cael trwydded ac amodau, a ellir eu gweld yn Atodiad A.

3.6 Dros y blynyddoedd, mae wedi dod i'r amlwg nad yw'r broses uchod, fel y nodir yn 3.4, yn cael ei adlynu yn llawn gan bob Gorsaf Brofi ac mae safon y prawf yn wahanol ym mhob garej.

3.7 Ers dechrau'r flwyddyn rydym wedi cael ein hysbysu am ychydig iawn o fethiannau i'r prawf.

3.8 Mae rhai Gorsafoedd Profi ond yn cyflawni llond llaw o brofion cydymffurfio'r flwyddyn, ac mae’r Swyddogion yn ymwybodol efallai nad yw’r garejys hyn yn gyfarwydd â’r polisi a’r safonau, yn wahanol i garej sydd yn cyflawni prawf yn rheolaidd, sydd yn arwain at ddiffyg cysondeb ar draws y broses profi gyfredol.

3.9 Gan ystyried yr uchod, hoffai’r Swyddogion adolygu’r broses gyfredol i ystyried yr opsiynau canlynol:

1. Dim newid i'r Gorsafoedd Profi awdurdodedig cyfredol.
2. Gwahodd datganiadau o ddiddordeb gan garejys MOT ar gyfer Cytundeb Lefel Gwasanaeth penodol.
3. Lleihau’r nifer o Orsafoedd Profi awdurdodedig yn y Sir
4. Symud i brofi cydymffurfiaeth yn fewnol

3.10 Gall Aelodau weld y manteision a’r anfanteision y 4 opsiwn uchod yn Atodiad B.

3.11 Os bydd yr Aelodau o blaid cefnogi cynnal profion mewnol gan y Depo Gwasanaethau Fflyd y Sir ym Modelwyddan, yna byddai angen i'r Gwasanaethau Fflyd o bosib darparu safle ychwanegol yn ardal ddeheuol o’r Sir. Mae ymholiadau cynnar gyda’r Gwasanaethau Fflyd wedi nodi y byddent yn gallu cefnogi cais fel hyn.

3.12 Mae’r Swyddogion wedi ymgynghori â’r Adran Cludiant Teithwyr y Sir, a byddant yn gefnogol o unrhyw newidiadau sydd yn gwella diogelwch y fflyd cerbyd trwydded gyfredol, a hefyd maent yn cefnogi symud i brofi yn fewnol.

3.13 Mae’r swyddogion wedi ymgynghori â’r Awdurdodau Trwyddedu Gogledd Cymru i sefydlu a oes ganddynt fan profi mewnol neu wedi ystyried hynny. Ar adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn, nid oes yr un ymateb wedi dod i law gan unrhyw un o’r awdurdodau cyfagos. Bydd swyddogion yn adrodd ar unrhyw ddiweddariad yng nghyfarfod o’r pwyllgor.

4.0 **ARGYMHELLION**

4.1 I edrych ar broses profi mewnol fel dewis a ffafrir ond yn amodol ar adolygiad ac ymgynghoriad pellach gyda'r holl bartïon perthnasol.

4.2 Os na fydd Aelodau yn cefnogi’r broses profi fewnol ar yr adeg hon, yna bydd y Swyddogion yn argymell bod adolygiad o'r broses gyfredol yn cael ei chyflawni.

**Appendix A**

# Denbighshire Licensing
# Statement of Responsibilities.

**All testing must be conducted in accordance with the following requirements:-**

1] Section 45 of the Road Traffic Act 1968; the Motor Vehicles [Tests] Regulations.

2] The MOT Testing Guide and supplementary information issued from time to time by VOSA.

3] The Public Authority Transport Network [PATN] Best Practice Guide and National Standards for Hackney Carriage & Private Hire Vehicles.

4] Denbighshire County Council Hackney Carriage/Private Hire Vehicle Compliance Test – Explanatory Guidance Notes.

When these requirements are amended or superseded testing must be carried out in accordance with the requirements applicable at the time of the test.

**All statutory testing must be carried out:**

a] At the premises authorised and agreed by Denbighshire County Council Fleet Services.

b] Using only the equipment and facilities specified in this agreement and agreed by Denbighshire County Council, and which should be maintained in good working order and where necessary calibrated at the required intervals.

c] Only on those classes of vehicles for which authorisation has been granted.

d] Only by persons listed on this agreement.

e] Utilising an assistant for those parts of the tests requiring it.

f] Without avoidable distraction or interruption.

Any vehicle of a class for which authorisation is granted must be accepted for test, unless it is of such size or weight that it cannot be properly or safely tested on the approved facilities. If a test cannot be carried out immediately, an appointment must be offered at the earliest practicable time subject to;

a] Physical limits;
b] Reasons for not starting test.

Authorisation may cease for any failure to comply with the requirements set out above or if any statement made in this application is untrue.

**DECLARATION**:

I declare that:

1] The information provided within the supporting documentation is, to the best of my knowledge, true and correct.

2] I have read, understood and accept the above 'Statement of Responsibilities' and have the authority to accept it on behalf of the applicant[s].

**Signature** ____________________________________

**Print Name**___________________________________

**Date**_________________________________________

Appendix B

## Comparison table of options for review of current authorised testing station process

| Option | Advantages | Disadvantages |
|---|---|---|
| No change to the current authorised Testing Stations | No advantages identified | • Inconsistencies between current testing stations standard of tests<br>• No standard test fee<br>• Lack of confidence of data on what vehicles are being failed and re-tested. Leading to potential for conflicts of interest – businesses wanting to retain testing work for a customer may advise / repair and not fail thus not accurately reported the compliance of a vehicle at all times.<br>• Allowing tests to be carried out at multiple test stations will require additional enforcement and compliance work to ensure consistent application of standards across each testing station. Given resource limitations, this will also reduce capacity for general enforcement work.<br>• A risk of applicants with vehicles in a poorer condition may favour a test station which takes a more lenient approach of the testing standards – if an applicant believed that one station would fail their vehicle and one would pass it, they will inevitably take the vehicle to the latter. Therefore it’s not a true reflection on how the vehicle has been maintained |

| | | |
|---|---|---|
| | | in the 6 months prior to its compliance test. |
| Invite expressions of interest from MOT garages to a specific Service Level Agreement | • More customer choice<br>• Less travel time for licence holders<br>• Control over setting fee for testing<br>• More control over operating conditions and actions for non-compliance (of garages) | • Allowing tests to be carried out at multiple test stations will require additional enforcement and compliance work to ensure consistent application of standards across each testing station. Given resource limitations, this will also reduce capacity for general enforcement work.<br>• Insufficient interest from garages leading to little choice |
| Reduce the number of authorised Testing Stations in the County | • Customer choice<br>• Less travel time for licence holders<br>• Reduce Officer time for enforcement and compliance of testing stations | • Inconsistencies between current testing stations standard of tests<br>• Allowing tests to be carried out at multiple test stations will require additional enforcement and compliance work to ensure consistent application of standards across each testing station. Given resource limitations, this will also reduce capacity for general enforcement work.<br>• Lack of confidence of data on what vehicles are being failed and re-tested. Leading to potential for conflicts of interest – businesses wanting to retain testing work for a customer may advise / repair and not fail thus not accurately reported the compliance of a vehicle at all times. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • A risk of applicants with vehicles in a poorer condition may favour a test station which takes a more lenient approach of the testing standards – if an applicant believed that one station would fail their vehicle and one would pass it, they will inevitably take the vehicle to the latter.<br>• Reduces customer choice |
| Move over to In-house compliance testing | • Eliminate inconsistencies within the current testing regime.<br>• Testing slots would be available up to 19:00 hrs – Monday to Friday (potential to open on a Saturday should there be demand)<br>• Impartial testing as Fleet Services do not carry out any repairs on the vehicle<br>• Standard test fee which will be published<br>• True reflection on 1st time presented failure / pass rates. Better data on how vehicles are being maintained by the operator, and potential reduction in enforcement workload by enabling enforcement to concentrate on the vehicles and operators that are actually failing on 1st time presented basis. | • Increased travel time for licence holders. However, testing is only required once every 6 months, therefore it should be minimal impact on licence holders.<br>• Possible increase in fees for operators as some have potentially struck deals with preferred garage<br>• Capacity at testing station |

Appendix B

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 4 Rhagfyr 2019 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Rheolwr Busnes Diogelu'r Cyhoedd<br>licensing@denbighshire.gov.uk<br><br>01824 706066 |
| **TESTUN:** | Adolygiad o Bolisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 Darparu diweddariad i'r aelodau o'r Polisi a Gweithdrefn Cosb a gwneud argymhellion ar ddefnydd o'r broses.

**2. CRYNODEB GWEITHREDOL**

2.1 Mae'r Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb yn ddogfen unigol sy'n cwmpasu sut y bydd y Cyngor yn ymdrin â mân achosion o ran trwyddedu tacsis ac fe'i cymeradwywyd gan yr Aelodau ym mis Medi 2014 ac fe'i diweddarwyd ymhellach ym mis Medi 2015.

2.2 Mae'r Swyddogion wedi adolygu'r broses ac yn ceisio cefnogaeth i addasu sut y bydd tor-amodau o'r fath yn cael eu hymdrin yn y dyfodol.

**3. PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD**

3.1 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847.

**4.0 GWYBODAETH GEFNDIR**

4.1 Cyfrifoldeb allweddol y cyngor dan y ddeddfwriaeth drwyddedu yw sicrhau mai dim ond pobl addas a phriodol sy'n cael trwyddedau ac yn parhau i fod yn yrwyr neu weithredwyr cerbydau hacni / hurio preifat. Mae hyn er mwyn sicrhau diogelwch y rhai sy'n defnyddio cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat a'r cyhoedd.

4.2 Penderfynodd yr Aelodau i fabwysiadu'r Polisi a Gweithdrefn Cosb i ddechrau ym mis Medi 2014, a'i ddiwygio ymhellach yn 2015 a 2016.

4.3 Caiff y Polisi a Gweithdrefn eu hadolygu bob tair blynedd.

4.4 Bydd yr Aelodau yn ymwybodol bod y Polisi a Gweithdrefn yn nodi sut y bydd swyddogion yn delio â thor-amodau neu thorri deddfwriaethau, a hefyd yn rhoi gwerth pwyntiau ar y tor-amodau.

4.5 Bydd casgliad o 20 pwynt mewn dwy flynedd i drwyddedai yn gallu arwain at yr unigolyn hwnnw yn cael ei riportio i'r Pwyllgor Trwyddedu nesaf.

4.6 Lle bo mater yn ddifrifol, yna byddai cosb unigol o 20 pwynt yn cael ei roi i'r drwyddedai perthnasol (gyrrwr neu berchennog neu weithredwr). Felly, bydd y Pennaeth Gwasanaeth yn penderfynu ar y camau gweithredu pellach yn drwy ymgynghori â'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu.

4.6 Mae'r cynllun yn caniatáu proses apêl 10 diwrnod waeth beth yw'r lefel o bwyntiau neu ddigwyddiadau.

4.7 Bydd yr Aelodau yn ymwybodol drwy'r Cyfansoddiad a Chynllun Dirprwyo bod gan y Pwyllgor Trwyddedu swyddogaethau wedi'u dirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth a fydd yn ei dro yn dirprwyo'r swyddogaethau penodol i swyddogion penodol. Mae'r swyddogaethau hynny yn cynnwys, mewn amgylchiadau penodol, atal a dirymu trwydded gyrrwr, cerbyd a gweithredwr.

4.8 Yn ystod 2019, cafodd chwe digwyddiad ei riportio ar gyfer pwyntiau cosb gydag un digwyddiad yn cynnwys rhoi 20 pwynt cosb.

**5.0 YSTYRIAETHAU**

5.1 Mae gan y broses ganlyniadau anfwriadol i'r graddau ag oedi camau gweithredu priodol, gan gynnwys atal dros dro/ dirymu os oes angen, gan fod amserlenni apeliadau yn cael eu nodi, fel y nodir unigolion ar gyfer camau gweithredu penodol.

5.2 Mae Swyddogion, sy'n gweithio gydag Aelodau a'r Gwasanaethau Cyfreithiol wedi datblygu "*Gweithdrefn i Ddirymu neu Ddileu Trwydded Cerbydau Hurio Preifat neu Gerbyd Hacn*i" (Atodiad A) sydd yn amlinellu'r camau gweithredu i'w hystyried i benderfynu i atal neu ddirymu ai peidio ac mae'n nodi dirprwyaeth y swyddogion.

5.3 Nid yw rhoi pwyntiau yn caniatáu disgresiwn neu wyriad yn hawdd lle gallai amgylchiadau ei ganiatau, er enghraifft pan mae unigolyn yn parhau â pheidio â chydymffurfio ac yn destun nifer o ddigwyddiadau o bwyntiau sgôr isel, gall peth amser fynd heibio cyn y cymerir camau pellach. Gan ystyried ailadrodd rhybuddion, gallai'r swyddogion ystyried bod angen cymryd camau gweithredu pellach cyn cyrraedd 20 pwynt.

5.4 Mae'r Swyddogion o blaid cael gwared â'r Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb, ac yn ei le i ganiatáu Swyddogion, sydd wedi'u hawdurdodi eisoes i orfodi deddfwriaeth penodol gan gynnwys y rheiny sydd yn berthnasol â'r diwydiant cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat, i ddelio â phob achos yn ôl ei deilyngdod gan ystyried "Protocol Gorfodi" y Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd. Mae cymhwysedd y Swyddogion yn cael ei asesu'n rheolaidd a darperir hyfforddiant yn ôl yr angen.

5.5 Nid oes niferoedd sylweddol o ddigwyddiadau yn cael eu riportio i gael pwyntiau.

5.6 Mae cronfeydd data yn caniatáu cofnodi rhybuddion a/neu cyngor. Bydd y data hwn yn cael ei ddefnyddio i ystyried camau gweithredu priodol yn erbyn trwyddedai lle bo angen.

5.7 Mae’r matrics sgorio a ddatblygwyd dros y blynyddoedd diwethaf yn ganllaw buddiol i swyddogion a defnyddwyr gwasanaeth o ddifrifoldeb o faterion sydd yn debygol i’w canfod mewn awdurdod trwyddedu.

**6.0 ARGYMHELLION**

6.1 Bod Aelodau yn cefnogi cael gwared â’r broses Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Appendix A**

PLANNING AND PUBLIC PROTECTION SERVICE

# Procedure for the Revocation or Suspension of a Private Hire or Hackney Carriage licence

| | |
|---|---|
| Author/Custodian: | Ian Millington |
| Date Agreed and Implemented: | *09/07/2019* |
| Agreed by: | Emlyn Jones, Head of Planning & Public Protection |
| Frequency of Review: | 1 year |
| Review Date: | *08/07/2020* |
| Member Involvement (If any): | Committee |
| Internal or Public Domain: | Public |
| Head of Service Approval: | *Emlyn Jones* |

| Version Control: | | | |
|---|---|---|---|
| Reference | Status | Authorised By | Date |
| V1.0 | Approved | *Emlyn Jones* | 09/07/2019 |

# 1. Purpose

To ensure consistency of administering and enforcing the Hackney Carriage and Private Hire legislation and the safety of the travelling public throughout the County of Denbighshire. This procedure aims to provide practical guidelines for to follow when information/complaints have been received from interested parties on alleged conduct/inappropriate behaviour of an existing licensed driver and to ensure legislation is adhered to.

# 2. Related Documents

Town Police Clauses Act 1847

Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976 (“LGMPA76”)

Taxi Licensing Conditions and Policy booklet

# 3. Officer Delegations

The Licensing Committee have delegated to the Head of Service who has subsequently authorised the following officers to carry out the functions detailed below.

| DELEGATIONS | |
|---|---|
| **Function** | **Officer** |
| **Revocation of licence** | In consultation with Legal Services, the Head of Service or Built Environment & Public Protection Manager |
| **Suspension of licence** | Business Manager or Built Environment & Public Protection Manager |
| **Points policy** | Licensing Officers |
| **Written warnings** | Licensing Officers |
| **Prosecution** | Business Manager or Built Environment & Public Protection Manager |
| **Simple caution** | Business Manager or Built Environment & Public Protection Manager |
| **Reinstatement** | Business Manager or Built Environment & Public Protection Manager |
| **Informal Advice / Guidance** | Licensing Officers |
| **No action** | Licensing Officers |

# 4. Legislation

Section 61 of the LGMPA 76 give a local authority powers to suspend or revoke a drivers’ licence issued under section 51 of the LGMPA or section 46 of the Town

Police Clauses Act 1847, or refuse to renew a drivers' licence on any of the following grounds:

- That he has since the grant of the licence
    - Been convicted of an offence involving dishonesty, indecency or violence; or
    - Been convicted of an offence under or has failed to comply with the provisions of the act of 1846 or the LGMPA 76; or
- Any other reasonable cause.

# 5. Process

I. Information is received from partners/interested parties on the conduct of an existing driver or a conviction as detailed in section 4 above.

II. The officer will assess whether the allegation is an issue of public safety or a more minor complaint. A list of examples can be found on the flowchart.

III. Where an allegation or information is received about a licensed driver, and is of such a nature that a real and reasonable concern is raised in terms of public safety, or crime and disorder, about the suitability of a licensed driver to continue to hold a Local Authority driver licence, then consideration should be given to immediate revocation of that licence. Circumstances where such an action should be considered include;

- committed a serious offence (such as outlined in the flowchart at Section 6 below)
- are alleged to have committed a serious offence
- are in breach of the requirements placed upon that type of licence within primary legislation
- are in conflict with a significant part of the Council's safety policy, or
- where there is intelligence provided which raises a significant concern and it is necessary to immediately remove that potential risk.


IV. If it is a matter of public safety the officer should justify the credibility of the evidence by answering the following questions;

- What is the basis of the complaint?
- Where has the evidence come from?
- How credible is the source?
- Is there previous known history?
- How was the evidence obtained?
- Interview offered?

V. The officer should interview the licensee without undue delay. Consideration as to the public safety aspect should be a factor in arranging any interview.

VI. The relevant authorities should be informed; Police, Social Services, Other Local Authorities etc.
VII. Officers should consider other relevant policies, procedures and documents e.g. convictions policy, driver T&C's, Points policy, safeguarding policy
VIII. After gathering information, officers should, after discussing with line managers, consider again – is this still a routine matter?
IX. If yes, continue with written report for consideration by relevant delegation
X. If no, elevate to public safety process.
XI. Decision
XII. Inform other relevant authorities

# 6. Process Flowchart



# 7. Decisions

Officers will take the appropriate action under the scheme of delegation.

In all circumstances the guidance in Appendix 1 will be considered throughout the process.

The licensee will be provided with written confirmation of the decision and the reasons for reaching that decision.

Licensing Committee Members and other relevant authorities will be given written confirmation of actions taken.

The table below lists the possible outcomes.

| PENALTIES | |
|---|---|
| **No Further Action** | There is insufficient evidence to substantiate the allegations made. |
| **Simple Caution** | A formal caution given as an alternative to prosecution – if the Driver accepts the wrong doing. Retain a copy on the Driver's file. |
| **Written Warning** | A formal written warning on the Driver's file about the offending behaviour. |
| **Penalty Points** | In accordance with current Penalty Points Policy |
| **Suspension** | For an appropriate period to be determined on each case. |
| **Revocation** | Where there is sufficient evidence to believe that the licensed driver is no longer a fit and proper person to hold a licence. |

# 8. Right of Appeal

A person aggrieved by the Council's decision has rights of appeal to the Magistrates Court within 21 days.

# 9. Reinstatement

Section 61 (2B) of the Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976 enables a decision to suspend or revoke a Hackney Carriage / Private Hire drivers licence to take immediate effect should the council believe it to be necessary in the interests of public safety. This means the driver cannot continue to drive Hackney Carriage / Private Hire vehicles during the appeal period.

If, within 21 days, information comes to light which demonstrates that a driver is indeed fit and proper the authority may reinstate a previously revoked licence. A ‘fast track’ procedure will be adopted to re-licence those drivers who have had their licence revoked but have subsequently been found to be fit and proper. In these cases, the driver will supply the council with a new application form but there will be no subsequent application fee. All pre-check enquiries (DBS, medical etc.) would stand and the dates they were previously due to expire would be valid, as would the licence itself.

# 10. Review of Procedure

This procedure will be reviewed by the licensing section and section manager on an annual basis or sooner if changes to legislation are made

**Appendix 1 - GUIDANCE ON IMMEDIATE SUSPENSION AND REVOCATION**

**Legislation**

Section 61 of the Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976 provides that the Council may suspend or revoke or refuse to renew the licence of a driver of a hackney carriage or private hire vehicle on any of the following grounds.

(a) That he has since the grant of the licence

i. Been convicted of an offence involving dishonesty, indecency or violence; or
ii. Been convicted of an offence under or has failed to comply with the provisions of the Act of 1847 or of this part of this of this Act; or

(b) Any other reasonable cause.

Section 61(2) goes on to provide that a suspension or revocation normally takes effect at the end of the period of 21 days beginning on the day on which notice is given to the driver but;

> *If it appears that the interests of public safety require the suspension or revocation of the licence to have immediate effect, and the notice give to the driver includes the statement that this is so and an explanation why then the suspension or revocation takes immediate effect when the notice is given.*

These provisions (setting out when the decision takes effect) were inserted by the Road Safety Act 2006.

**Guidance on decision making – Suspensions and Revocations generally**

Section 61 requires the licensing authority to make a finding on the balance of probabilities that that the grounds set out in the legislation are made out.

In Section 61(1)(a)(i) the offence in question must involve dishonesty, indecency or violence. Dishonesty, indecency or violence must be part of the commission of the criminal offence for this subsection to apply but it is not necessary for the offence to be one of dishonesty, indecency or violence.

Section 61(1)(b) allows suspension or revocation (or refusal to renew) for any other reasonable cause. No further definition is give of reasonable cause within the legislation and ultimately the question is a matter for the discretion of the decision maker.

Guidance is given in a number of cases from which the following principles can be drawn.

- The decision maker is entitled to take into account hearsay evidence. *McCool v Rushcliffe Borough Council (1998)*
- The fact that no criminal case is pursued against the driver is a relevant factor that can be outweighed by other evidence. *McCool v Rushcliffe Borough Council (1998)*
- The burden of proof is on the applicant to establish that he is a fit and proper person to hold the licence. *R v Maidstone Crown Court ex parte Olson (1992)*
- Once the driver has established a case that he is a fit and proper person, the evidential burden shifts to the Local Authority to rebut the case put forward by the driver. Rebuttal does not require the decision maker to prove that a person is not a fit and proper person and nor does pursuing that argument amount to double jeopardy.
- They would not have good reason to question or doubt the applicant's case if the evidence amounts to assertions shown to be ill founded gossip or rumour or for any other evidence which a reasonable and fair minded decision maker acting in good faith with proper regard to the interests of the public and the applicant would not think it right to rely on. *McCool v Rushcliffe Borough Council (1998)*

The discretion under this Section is wide and is not restricted to convictions for criminal offences nor is proof required to the criminal standard.

The taxi licensing regime is clearly and expressly in place to protect members of the public travelling in taxi and private hire vehicles. Consideration may be given to applying the following test - "*Would I allow my daughter or son, granddaughter or grandson, spouse, mother or father, or any other person I care for or any vulnerable person I know, to get into a vehicle with this person alone?"*

There are issues which undermine that protection which amount to criminal offences in their own right but there are other issues which have significance for the protection of the travelling public where a criminal offence might not have been committed or proved.

**Immediate suspension or revocation**

Both standard and immediate suspensions require the decision maker to consider the same matters, i.e. whether there has been a relevant conviction or "any other reasonable cause".

As suspension or revocation can only take immediate effect in the interests of public safety there must be an additional consideration. That means the decision maker

should consider whether there is a clear connection between the incidents alleged and the safety of the travelling public which justifies taking this additional step.

However there are no further limits or restrictions on the decision maker's exercise of judgment or discretion providing a proper judgment is made weighing up the evidence available.

There is no requirement in the legislation limiting this power to cases where there has been a conviction for a criminal offence nor that any alleged incident or offence is 'serious'.

The decision must be taken in the interests of public safety and should be fair, reasonable, proportionate and in accordance with human rights and natural justice principles.

The Council has a published Conviction Policy relating to those with criminal convictions. The council will have regard to that policy when considering whether an offence, allegation or complaint should be considered as warranting immediate suspension in the public interest. This will be judged against all the circumstances of the case, including any admissions or denials made and any other relevant evidence.

Examples of situations where immediate suspension or revocation might be warranted include:

- Allegations of violence against a passenger or person wishing to travel.
- Allegations of indecency including sexual assault and rape against a passenger or person wishing to travel.
- Allegations of safeguarding nature
- Allegations that the driver is unfit to drive as a result of being under the influence of drugs or alcohol.
- Admitted sexual contact with a passenger in the vehicle
- Allegations of dishonesty relating to use of the vehicle such as attempting to pervert the course of justice in relation to a road traffic accident, fraudulent use of tax or insurance documentation, knowingly driving an uninsured vehicle to convey members of the travelling public (e.g. plying for hire).
- Allegations of dangerous driving or driving without due care and attention thereby endangering the safety of passengers and other road users.

Each case must be decided on its own facts and any examples given in this guidance are only illustrative. Each case must be considered on its own merits and the powers should be exercised in a consistent and reasonable manner having regard to the facts of the case and the risk posed to the public.

Any decision to suspend or revoke a licence should never be taken lightly. However, the licensing system is designed to protect the public and it would be wrong not to suspend or revoke where such course of action is clearly appropriate on the facts of an individual case. If there is any doubt whatsoever as to the driver’s suitability to hold a licence as a fit and proper person serious consideration must be given to refusal, revocation or suspension.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 4 Rhagfyr 2019 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu)<br>trwyddedu@sirddinbych.gov.uk<br>01824 706433 |
| **TESTUN:** | Polisi Casgliadau Drws i Ddrws Arfaethedig |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.2 I gyflwyno Polisi Casgliadau Drws i Ddrws arfaethedig i'r Aelodau ei ystyried, a fydd yn galluogi'r Cyngor i wneud penderfyniadau tryloyw a chyson.

**2. CRYNODEB GWEITHREDOL**

2.1 Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor Bolisi clir a manwl i ystyried ceisiadau o'r fath, sy'n achosi rhywfaint o ansicrwydd i ymgeiswyr a Swyddogion Trwyddedu.

2.2 Mae Swyddogion wedi drafftio polisi cyfredol i'w ystyried, er mwyn i bob parti â diddordeb gael gwybod am y gofynion a'r broses.

**3. PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD**

3.1 Deddf Casgliadau Drws i Ddrws 1939 a Rheoliadau Casgliadau Drws i Ddrws 1947.

4. **GWYBODAETH GEFNDIR**

4.1 Mae casgliadau drws i ddrws yn ffynhonnell hanfodol o gyllid ar gyfer llawer iawn o elusennau ac maent yn cynnig cyfle cadarnhaol i'r cyhoedd eu cefnogi. Fodd bynnag, rhaid cynnal casgliadau o'r fath er budd yr elusen ac yn unol â'r gyfraith. Mae cynnydd yn nifer y casgliadau drws i ddrws ffug yn genedlaethol ac felly mae'n hanfodol bod trwyddedau'n cael eu cyflwyno i gasglwyr cyfreithlon, gan roi hyder i'r cyhoedd bod eu rhoddion yn cael eu rhoi i'r elusen briodol.

4.2 Yn gyffredinol, mae trwyddedau ar gyfer casgliadau drws i ddrws yn cael eu cyflwyno gan y Cyngor, fodd bynnag, mae Gorchmynion 'Eithriad Cenedlaethol' ar gael i elusennau sy'n dymuno cynnal nifer uchel o gasgliadau cydamserol ar draws y wlad. Mae Gorchmynion 'Eithriad Cenedlaethol' yn cael eu cyflwyno gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

4.3 Y polisi cyfredol yw'r "*rhoddir trwyddedau i sefydliadau heb Orchmynion Eithriad y Swyddfa Gartref cyn belled â nad yw casgliadau o'r fath yn gorgyffwrdd â chasgliadau eraill a bod cymdeithasau yn cael eu cyfyngu i un casgliad o fewn 12 mis.*"

4.4 Er nad yw'n ofyniad cyfreithiol i'r Cyngor gael polisi o'r fath, ystyrir ei bod yn ymarfer da i fabwysiadu polisi o'r fath i ddarparu ymgeiswyr â chanllawiau a'r Cyngor â fframwaith i wneud penderfyniadau tryloyw a chyson wrth ystyried ceisiadau. Bydd proses wedi'i dogfennu o gymorth i roi hyder i bobl sydd yn dymuno rhoi i elusen, eu bod yn gallu gwneud hynny yn ddidwyll gan wybod y bydd yr arian neu'r cynhyrchion y maent yn eu rhoi o fantais uniongyrchol i'r elusen.

4.5 Nod y polisi arfaethedig yw osgoi gorlenwi'r ardal â chasglwyr o elusennau gwahanol.

4.6 Mae copi o'r Polisi Casgliadau Drws i Ddrws arfaethedig ar gael yn Atodiad A.

5. **YMGYNGHORI**

5.1 O ystyried y bydd y polisi arfaethedig yn cwmpasu pob agwedd o'r broses a'r gofynion, mae Swyddogion wedi asesu nad oes newid sylweddol i bwrpas y polisi presennol, fel y manylir yn adran 4.3 uchod, ac os bydd Aelodau o blaid cefnogi'r Polisi Casgliadau Drws i Ddrws arfaethedig, bydd ymgynghoriad ond yn cael ei gynnal â sefydliadau elusennol sydd wedi ymgeisio a chasglu o fewn y Sir yn ystod y 12 mis diwethaf.

5.2 Gofynnodd Aelodau bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trwyddedu pe ceid gwrthwynebiadau, er mwyn galluogi i Aelodau ystyried ymatebion. Fodd bynnag, os na dderbynnir gwrthwynebiadau, cynigir bod Aelodau'n cymeradwyo mabwysiadu'r polisi.

6. **ARGYMHELLION**

6.1 Bod Aelodau'n ystyried cefnogi'r Polisi Casgliadau Drws i Ddrws arfaethedig, fel y manylir yn Atodiad A, ac wrth wneud hynny, yn

awdurdodi Swyddogion i gychwyn ar broses ymgynghori ffurfiol, fel y manylir yn 5.1.

6.2 Ar ôl ymgynghori, bod Swyddogion yn:

i. Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Trwyddedu am unrhyw wrthwynebiadau iddyn eu hystyried a chymeradwyo'r Polisi arfaethedig newydd.
ii. Os na cheir ymatebion, bod Aelodau yn cymeradwyo i fabwysiadu'r Polisi Casgliadau Drws i Ddrws yn weithredol, o 1 Ebrill 2020.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Polisi a Gweithdrefn Ddrafft ar gyfer Casgliadau o Dŷ i Dŷ

## Cynnwys

Cynnwys ........................................................................ **Error! Bookmark not defined.**

Nodau'r Polisi.................................................................... **Error! Bookmark not defined.**

Rhagarweiniad.................................................................. **Error! Bookmark not defined.**

Hepgor yr Angen am Drwydded..............................................................................4

Dyrannu Trwydded……………………………………………………………………......5

Ffioedd a Chodi Tâl ……………………………………………………………………….5

Gwneud Penderfyniad…………………………………………………………………….5

Gwrthod Cyhoeddi Trwydded……………………………………………………...….6

Pennu'r Swm a Roddir i Elusen ………………………………………………………...6

Gwneud Cwyn …..……………………………………………………………………..……7

Cysylltiadau……………………………………………………………………………..……7

## 1. Nodau'r Polisi

1.1 Nodau'r Cyngor yw:

a. diogelu buddiannau cyfranwyr cyhoeddus a buddiolwyr
b. hwyluso casgliadau sydd wedi'u trefnu'n dda gan elusennau dilys a sicrhau bos safonau da yn cael eu bodloni
c. rhwystro casgliadau didrwydded
d. sicrhau bod arian yn cael ei gasglu'n ddiogel a bod yr elw yn cael ei gyfrifo'n gywir
e. lleihau niwsans i breswylwyr ac ymwelwyr
f. sicrhau balans teg rhwng achosion lleol a chenedlaethol

## 2. Rhagarweiniad

2.1 Mae Casgliadau o Dŷ i Dŷ yn ffynhonnell hanfodol o gyllid ar gyfer llawer iawn o elusennau ac maent yn cynnig cyfle cadarnhaol i'r cyhoedd eu cefnogi. Fodd bynnag, rhaid eu cynnal er budd yr elusen ac yn unol â'r ddeddfwriaeth. Mae mwy a mwy o achosion o gasgliadau ffug ac felly mae'n hanfodol bod trwyddedau yn cael eu cyflwyno i gasglwyr cyfreithlon.  Mae sicrhau bod casglwyr yn meddu ar y drwydded berthnasol yn rhoi hyder i'r cyhoedd fod eu rhoddion yn cael eu hanfon at yr elusen briodol.

2.2 Mae Casgliadau o Dŷ i Dŷ yn cael eu rheoleiddio gan y Ddeddf Casgliadau o Dŷ i Dŷ 1939 (y Ddeddf) a Rheoliadau Casgliadau o Dŷ i Dŷ 1947, fel y'i diwygiwyd.

2.3 Fel rheol, cynhelir casgliadau o dŷ i dŷ at ddibenion elusengar neu haelionus, boed a yw'r pwrpas yn elusengar o fewn diffiniad y rheol gyfreithiol ai peidio, ac mae gofyn bod y casgliadau hyn yn drwyddedig gan y Cyngor.

2.4 Diffiniad "casgliad" yw apêl i'r cyhoedd, a wneir drwy ymweliadau o dŷ i dŷ, i roi arian neu unrhyw eiddo arall.  Gallai hyn gynnwys gwerthu cylchgronau, ceisiadau am ddillad neu eitemau cartref dieisiau.

2.5 Mae'r diffiniad o "Dŷ" yn cynnwys lle busnes.

2.6 Ni chaniateir gwneud unrhyw gasgliad at ddiben elusennol oni bai y cydymffurfir â darpariaethau'r Ddeddf a'r Rheoliadau, fel arall cyflawnir trosedd.

2.7 Mae'r Cyngor yn argymell bod yr holl sefydliadau yn cadw at God Ymarfer Codi Arian y Sefydliad Codi Arian Mae copi o'r cod ymarfer hwn ar gael yn www.institute-of-fundraising.org.uk

2.8 Mae'r Cod Manwerthu Elusennol yn hyrwyddo arferion da a safonau uchel ar gyfer manwerthu elusennol. Mae cydymffurfio â'r Cod yn rhan orfodol o Aelodaeth y Gymdeithas ar gyfer Aelodau Elusen y DU. Mae copi o'r cod ymarfer ar gael yn http://www.charityretail.org.uk/ccr2011.pdf

2.9 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod casglu manylion debyd uniongyrchol, o dŷ i dŷ, y tu allan i gwmpas Deddf 1939. Fodd bynnag, cynghorir casglwyr o'r fath i ystyried y cyngor a ddarparwyd gan y Gymdeithas Rheoleiddio Codi Arian Cyhoeddus.

2.10 Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol bod parthau Dim Galw Diwahoddiad yn cael eu datblygu yn y Sir. Pwrpas y parthau hyn yw annog galwyr diwahoddiad i beidio ag ymweld â rhai ardaloedd preswyl penodol, stryd neu glwstwr bychan o dai fel arfer. Mae'r parthau yn rhoi cyfle i aelwydydd wrthod yr arfer o alw diwahoddiad gyda'i gilydd. Mae'r parthau wedi'u nodi'n amlwg gydag arwyddion a gyda phob preswylydd yn arddangos sticer ar ei ddrws. Mae preswylwyr yn derbyn gwybodaeth am sut i ddelio â galwyr diwahoddiad os yw'r arwyddion yn cael eu hanwybyddu ac fe'u cynghorir i roi gwybod i Safonau Masnach Sir Ddinbych os yw hyn yn digwydd.

2.11 Gall preswylwyr unigol, nad ydynt yn rhan o'r Parth Dim Galw Diwahoddiad, hefyd nodi nad ydynt eisiau derbyn galwadau diwahoddiad drwy ddefnyddio arwyddion a sticeri. Ym mhob achos, rhaid i gasglwyr beidio â galw heibio'r eiddo hyn. Os ydynt yn gwneud hynny, fe'i ystyrir yn achos o dorri Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008 a thorri'r polisi hwn.

2.12 Lle mae'r awdurdod yn derbyn adborth negyddol mewn perthynas â chasgliadau yn cael eu cynnal yn ystod oriau anghymdeithasol, neu bwysau ormodol / camliwiad gan asiantwyr; a / neu derbyn cwynion am ymweliadau ag eiddo sy'n arddangos sticeri, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i wrthod ceisiadau yn y dyfodol neu ddirymu tystysgrif bresennol.

2.13 Gellir cael gwybodaeth am leoliad y Parthau Dim Galw Diwahoddiad yn y fwrdeistref drwy gysylltu â Safonau Masnach Sir Ddinbych drwy ffonio: 01824 706916 neu drwy anfon e-bost at: tradingstandards@denbighsire.gov.uk

## 3 Hepgor yr Angen am Drwydded

3.1 3.1 Mae dau amgylchiad lle gellir hepgor yr angen am drwydded:

i. Sefydliadau sydd wedi derbyn "Tystysgrif Eithrio" gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan ddarpariaethau'r Ddeddf Casgliadau o Dŷ i Dŷ 1929. Mae'r Dystysgrif hon yn caniatáu i sefydliad gasglu o fewn y Sir heb orfod gwneud cais am drwydded. Rhaid i'r sefydliad hysbysu'r Cyngor o ddyddiadau ac ardaloedd casgliadau cynlluniedig. Yn gyffredinol, gall sefydliadau gael gorchmynion eithrio cenedlaethol os oes ganddynt drwyddedau casgliadau o dŷ i dŷ mewn o leiaf 70–100 o ardaloedd trwyddedu awdurdod lleol ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf.

ii. Lle mae prif gwnstabl yr ardal heddlu yn fodlon bod y pwrpas yn lleol o ran cymeriad a bod y casgliadau yn debygol o gael eu cwblhau o fewn cyfnod byr o amser, yna mae'n bosib i'r prif gwnstabl, dan a.1 (4) y Ddeddf, roi tystysgrif i hyrwyddwr y casgliadau ar ffurf ragnodedig. Lle mae tystysgrif yn cael ei chymeradwyo, nid oes angen trwydded gan y Cyngor, ac ni fydd darpariaethau'r rheoliadau yn berthnasol i gasgliad a wnaed yn unol â thystysgrif o'r fath.

## 4. Dyrannu Trwydded

4.1 Er mwyn osgoi nifer o gasgliadau yn cael eu gwneud ar yr un diwrnod, ni fydd y Cyngor yn cymeradwyo trwyddedau am gyfnod o ddeuddeg mis. I sicrhau bod amser digonol i gynnal casgliad, ni fydd y Cyngor yn cymeradwyo trwyddedau am gyfnodau mwy na 14 diwrnod, ond bai fod y Cyngor yn fodlon bod amgylchiadau eithriadol yn bod.

4.2 Bydd ceisiadau yn cael eu trin ar sail cyntaf i'r felin, os derbynnir mwy nag un cais ar yr un pryd, rhoddir ffafriaeth i elusennau lleol.

4.3 Ni chaniateir i fwy nag un sefydliad gasglu yn yr un dref yn yr un wythnos.

4.4 Er mwyn caniatáu i gymaint o sefydliadau â phosibl gasglu, ni chaniateir mwy nag un casgliad fesul tref fesul blwyddyn galendr i unrhyw sefydliad unigol.

4.5 Yr ardaloedd dynodedig ar gyfer Casgliadau o Dŷ i Dŷ yn Sir Ddinbych fydd Bodelwyddan, Corwen, Dinbych, Llanelwy, Llangollen, Prestatyn, Rhuddlan, Rhuthun a'r Rhyl. Bydd y Cyngor hefyd yn caniatáu casgliadau mewn ardaloedd eraill yn y Sir yn cynnwys pentrefi cyfagos.

4.6 Os yw'r ymgeisydd yn nodi bod awdurdod lleol arall wedi gwrthod rhoi trwydded i'r sefydliad gynnal casgliadau o dŷ i dŷ, oni bai bod amgylchiadau arbennig am wrthod, bydd y Cyngor hefyd yn gwrthod y cais.

4.7 Os daw'n amlwg bod sefydliad wedi cynnal casgliadau didrwydded, ni chaniateir trwydded i'r sefydliad hwnnw am o leiaf 3 blynedd heb unrhyw achos o dor-cyfraith pellach.

## 5. Ffioedd a Chodi Tâl

5.1 Nid yw'r Cyngor yn codi tâl ar gyfer prosesu Trwyddedau Casgliadau o Dŷ i Dŷ.

## 6. Gwneud Penderfyniad

6.1 Wrth arfer ei ddisgresiwn wrth gyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio, bydd y Cyngor yn ystyried y Polisi hwn a'r egwyddorion sydd wedi'u cynnwys ynddo.

6.2 Er bodolaeth y Polisi hwn, bydd pob cais yn cael ei ystyried ar ei rinweddau ei hun yn seiliedig ar egwyddorion trwyddedu yn y Polisi hwn.

6.3 Lle mae angen i'r Cyngor wyro'n sylweddol oddi wrth y Polisi hwn, rhaid rhoi rhesymau clir a chymhellol dros wneud hynny. Gall y Pennaeth Cynllunio a

Gwarchod y Cyhoedd awdurdodi gwyriad oddi wrth y polisi yn unol â'r adran hon os yw ef / hi yn ystyried hyn yn angenrheidiol o dan yr amgylchiadau penodol.

## 7. Gwrthod Cyhoeddi Trwydded

7.1 Gall yr awdurdod wrthod neu ddirymu trwydded am sawl rheswm, fel y manylir yn y Ddeddf:

- Os yw cyfran rhy uchel o'r elw yn cael ei gwario ar dreuliau;
- Os nad yw digon o'r elw yn cael i roi i'r elusen neu'r achos;
- Os oedd yr wybodaeth anghywir wedi'i nodi ar y ffurflen gais;
- Os yw'r hyrwyddwr neu unrhyw unigolyn arall sydd yn gysylltiedig â'r casgliad wedi ei gael yn euog o drosedd benodol, hynny yw bwrgleriaeth, blacmel neu dwyll;
- Os byddai caniatáu'r drwydded yn debygol o hwyluso comisiwn trosedd o dan adran 3 o'r Ddeddf Crwydradaeth 1824, neu os yw trosedd dan yr adran honno wedi'i chyflawni mewn cysylltiad â'r casgliad.
- Os yw'r ymgeisydd neu ddeiliad y drwydded wedi methu arfer diwydrwydd dyladwy i sicrhau bod y casglwyr yn addas a chymwys, i sicrhau cydymffurfiaeth â darpariaethau'r Rheoliadau Casgliadau o Dŷ i Dŷ neu i sicrhau nad yw bathodynnau rhagnodedig neu dystysgrifau awdurdod rhagnodedig yn cael eu caffael gan unrhyw un oni bai am unigolion awdurdodedig.

7.2 Os yw'r ymgeisydd neu ddeiliad y drwydded wedi gwrthod neu wedi peidio â rhoi yr wybodaeth a oedd yn ofynnol gan yr Awdurdod er mwyn hysbysu ei hun o unrhyw fater a nodwyd yn y paragraffau blaenorol.

Mae hawl apelio i'r Ysgrifennydd Gwladol yn erbyn penderfyniad i wrthod neu ddirymu trwydded o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad y cyflwynwyd y penderfyniad i wrthod neu ddirymu.

## 8 Pennu'r Swm a Roddir i Elusen

8.1 Mae Adran 2 (3) o'r Ddeddf yn caniatáu'r Cyngor i wrthod cyhoeddi trwydded os yw'r cyfanswm a gyflwynir at ddibenion elusennol o ganlyniad i'r casgliad yn annigonol yn gymesur â gwerth yr elw sy'n debygol o gael ei dderbyn (yn cynnwys unrhyw elw sydd eisoes wedi'i dderbyn).

8.2 Wrth benderfynu os yw'r swm a roddir i elusen yn gymesur, bydd y Cyngor yn defnyddio'r canlynol fel canllaw:

a. Mae'r Cyngor yn deall bod costau yn gysylltiedig â threfnu a chynnal casgliadau o dŷ i dŷ, fodd bynnag, rhaid sicrhau bod y costau sy'n gysylltiedig ag un casgliad yn cael eu cydbwyso yn erbyn canfyddiad y cyhoedd, sef bod yr holl eitemau neu'r arian a gesglir yn cael eu rhoi i elusen.

b. Mae hefyd yn arfer cyffredin i gasglwyr gael eu talu dan sefydliadau i gasglu arian a chynnyrch. Wrth bennu tâl a phennu a yw'n ormodol, dylid ystyried natur y busnes a gorbenion a'u cydbwyso yn erbyn y swm a roddir i'r elusen. Dylid

hefyd ystyried y cyflogau y mae Cyfarwyddwyr a gweithwyr allweddol yn eu cael fel rhan o'r asesiad hwn.

c. Bydd y Cyngor yn ystyried pob cais yn ôl ei rinweddau ei hun.

8.3 Er mwyn asesu lefel yr elw a gyflwynir at ddibenion elusennol, rhoddir ystyriaeth i'r:

a. costau sydd yn gysylltiedig â gwneud casgliad e.e. cludiant / tâl / deunyddiau
b. refeniw a gynhyrchwyd o'r nwyddau a gasglwyd
c. lefel yr elw o'r casgliad a fydd yn cael ei roi i'r elusen
d. cyfrifon blynyddol a gyflwynwyd

## 9 Gwneud Cwyn

9.1 Os oes gennych gŵyn am y modd yr ydym wedi darparu gwasanaeth, yna gallwch wneud cwyn i Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, yn defnyddio'r cyfeiriad a nodir ar ddiwedd y ddogfen hon. Fel arall, gallwch gysylltu â Swyddog Cwynion y Cyngor drwy ffonio 01824 706169. Bydd pob cwyn yn cael ei harchwilio ac yn derbyn ymateb yn unol â Pholisi Cwynion y Cyngor. Gweler Polisi Cwynion y Cyngor ar y wefan: www.sirddinbych.gov.uk

## 10 Cysylltiadau

10.1 Mae'r Polisi hwn ar gael yn Saesneg. Gellir gwneud copïau mewn unrhyw iaith arall, ar gais. Gweler y manylion cyswllt isod.

🖃 Yr Adain Drwyddedu, Blwch Post 62, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15
🖰 trwyddedu@sirddinbych.gov.uk
☎ 01824 706342

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 4 Rhagfyr 2019 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu)<br>trwyddedu@sirddinbych.gov.uk<br>01824 706433 |
| **TESTUN:** | Polisi Casglu ar y Stryd Arfaethedig |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.2 I gyflwyno Polisi Casglu ar y Stryd arfaethedig i'r Aelodau ei ystyried, a fydd yn galluogi'r Cyngor i wneud penderfyniadau tryloyw a chyson.

**2. CRYNODEB GWEITHREDOL**

2.1 Mae deddfwriaeth yn gofyn bod y Cyngor yn trwyddedu Casgliadau ar y Stryd ar unrhyw stryd neu mewn unrhyw fan cyhoeddus at ddibenion elusennol neu ddibenion eraill.

2.2 Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor Bolisi clir a manwl i ystyried ceisiadau o'r fath, sy'n achosi rhywfaint o ansicrwydd i ymgeiswyr a Swyddogion Trwyddedu.

2.3 Mae Swyddogion wedi drafftio polisi cyfredol i'w ystyried, er mwyn i bob parti â diddordeb gael gwybod am y gofynion a'r broses.

**3. PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD**

3.1 Adran 5 o Ddeddf yr Heddlu, Ffatrïoedd ac ati (Darpariaethau Amrywiol) 1916 (fel y'i newidiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, a.251 ac Atodlen 29).

4. **GWYBODAETH GEFNDIR**

4.1 Mae gan y Cyngor rym dan y Ddeddf uchod i drwyddedu casgliadau a wnaed ar unrhyw stryd neu mewn unrhyw fan cyhoeddus at ddibenion

elusennol neu ddibenion eraill.

4.2 Yn ychwanegol at y grymoedd uchod, mae'r Cyngor wedi gwneud Rheoliadau o dan y ddeddfwriaeth uchod ar gyfer rheoli Casglu ar y Stryd yn y Sir.

4.3 Y polisi cyfredol yw y ***"caniateir un casgliad stryd yr wythnos mewn perthynas â phob tref / cymuned. Caniateir i gymdeithasau gynnal un casgliad yn unig ym mhob tref / cymuned o fewn cyfnod o 12 mis."***

4.4 Er nad yw'n ofyniad cyfreithiol i'r Cyngor gael polisi o'r fath, ystyrir ei bod yn ymarfer da i fabwysiadu polisi o'r fath i ddarparu ymgeiswyr â chanllawiau a'r Cyngor â fframwaith i wneud penderfyniadau tryloyw a chyson wrth ystyried ceisiadau. Bydd proses wedi'i dogfennu o gymorth i roi hyder i bobl sydd yn dymuno rhoi i elusen, eu bod yn gallu gwneud hynny yn ddidwyll gan wybod y bydd yr arian neu'r cynhyrchion y maent yn eu rhoi o fantais uniongyrchol i'r elusen.

4.5 Nod y polisi arfaethedig yw osgoi gorlenwi'r ardal â chasglwyr o elusennau gwahanol.

4.6 Dros y blynyddoedd, mae casgliadau elusennol wedi datblygu a bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r platfformau casglu arian pwerus sydd ar gael ar-lein ar hyn o bryd a elwir yn 'ariannu torfol'. Mae'r galw'n parhau am godi arian drwy gasglu ar y stryd, fodd bynnag mae amlder ac, yn y pen draw, llwyddiant y casgliadau hyn yn dibynnu ar nifer yr ymwelwyr sy'n cael eu denu at yr ardal gasglu.

4.7 Mae copi o'r Polisi Casglu ar y Stryd arfaethedig ar gael yn Atodiad A.

## 5. YMGYNGHORI

5.1 O ystyried y bydd y polisi arfaethedig yn cwmpasu pob agwedd o'r broses a'r gofynion, mae Swyddogion wedi asesu nad oes newid sylweddol i bwrpas y polisi presennol, fel y manylir yn adran 4.3 uchod, ac os bydd Aelodau o blaid cefnogi'r Polisi Casglu ar y Stryd arfaethedig, bydd ymgynghoriad ond yn cael ei gynnal â sefydliadau elusennol sydd wedi ymgeisio a chasglu o fewn y Sir yn ystod y 12 mis diwethaf.

5.2 Gofynnodd Aelodau bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trwyddedu pe ceid gwrthwynebiadau, er mwyn galluogi i Aelodau ystyried ymatebion. Fodd bynnag, os na dderbynnir gwrthwynebiadau, cynigir bod Aelodau'n cymeradwyo mabwysiadu'r polisi.

6. **ARGYMHELLION**

6.1 Bod Aelodau'n ystyried cefnogi'r Polisi Casglu ar y Stryd arfaethedig, fel y manylir yn Atodiad A, ac wrth wneud hynny, yn awdurdodi Swyddogion i gychwyn ar broses ymgynghori ffurfiol, fel y manylir yn 5.1.

6.2 Ar ôl ymgynghori, bod Swyddogion yn:

i. Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Trwyddedu am unrhyw wrthwynebiadau iddyn eu hystyried a chymeradwyo'r Polisi arfaethedig newydd.
ii. Os na cheir ymatebion, bod Aelodau yn cymeradwyo i fabwysiadu'r Polisi Casglu ar y Stryd yn weithredol, o 1 Ebrill 2020.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Polisi a Gweithdrefnau Casgliadau Stryd Drafft

## Cynnwys

Cynnwys ........ 2

1. Amcanion y Polisi ........ 3

2. Rhagarweiniad ........ 3

3. Clustnodi Dyddiau Casgliadau Stryd ........ 4

4. Ffioedd a Thaliadau ........ 5

5. Gwneud Penderfyniad ........ 5

7. Gwrthod Caniatau Trwydded ........ 5

8 Cwyno ........ 6

9 Cysylltiadau ........ 6

## 1. Amcanion y Polisi

1.1 Amcanion y Cyngor yw:

a. diogelu buddiannau aelodau'r cyhoedd sy'n rhoi ac yn derbyn fel ei gilydd
b. hwyluso casgliadau wedi'u trefnu'n dda gan sefydliadau elusennol dilys a sicrhau y gwneir hynny hyd y safonau uchaf
c. rhwystro casgliadau didrwydded
d. Sicrhau y cesglir arian yn ddiogel a bod modd dangos pa ddefnydd a wnaed ohono
e. lleihau niwsans i breswylwyr ac ymwelwyr
f. sicrhau cydbwysedd teg rhwng achosion lleol a chenedlaethol

## 2. Rhagarweiniad

2.1 Mae gan y Cyngor hawl dan adran 5 o Ddeddf yr Heddlu, Ffatrïoedd ac ati (Darpariaethau Amrywiol 1916 (fel y'i newidiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, a.251 ac Atodlen 29) i drwyddedu casgliadau a wneir 'yn unrhyw stryd neu fan cyhoeddus' i 'ddibenion elusennol neu ddibenion eraill.'

1.2 Yn unol â'i bwerau mae'r Cyngor wedi gwneud rheoliadau o dan y ddeddfwriaeth uchod ar gyfer rheoli Casgliadau Stryd yn ardal Sir Ddinbych cysylltiedig â'r lleoedd a'r amodau hynny lle caniateir i bobl mewn unrhyw stryd neu fan cyhoeddus, gasglu arian neu werthu eitemau i ddibenion elusennol neu fel arall.

1.3 Mae'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau'n pennu bod yn rhaid cael Trwydded Casgliadau Stryd ar gyfer unrhyw gasgliad a wneir ar stryd neu mewn man cyhoeddus. Mae'n drosedd cynnal Casgliad Stryd yn Sir Ddinbych heb gael trwydded o'r fath gan y Cyngor yn gyntaf.

1.4 Er eglurder, mewn Statud diffinnir:

**'Stryd'** fel unrhyw briffordd ac unrhyw bont, ffordd, lôn, llwybr troed, sgwâr, cwrt, ali neu stryd gefn boed yn dramwyfa neu ddim.

**Man Cyhoeddus** fel 'lle y mae gan y cyhoedd fynediad iddo', a gall gynnwys tir preifat e.e. drysau siopau a meysydd parcio. Mae'r Cyngor o'r farn bod cyntedd archfarchnad 'y tu ôl i ddrysau caeedig' ac felly mai caniatâd rheolwr y siop yn unig fyddai'n angenrheidiol, fodd bynnag pe bai'r casgliad yn digwydd y tu allan i'r siop neu yn y maes parcio, byddai'n rhaid gwneud cais am drwydded.

1.5 Ar ôl cael trwydded, nid yw'r deiliaid wedi'u cyfyngu i gasglu arian yn unig, gallant hefyd werthu eitemau elusennol gan fod hyn wedi'i eithrio o ofynion Trwydded Masnachwyr Stryd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1882.

1.6 Os bydd gwerthiant eitemau elusennol ar stryd neu mewn man cyhoeddus yn golygu bod angen defnyddio stondin neu fwrdd, rhaid cael caniatâd ysgrifenedig i wneud hynny gan Adran Briffyrdd Sir Ddinbych neu berchennog y tir cyn i'r Awdurdod Trwyddedu gyflwyno Trwydded Casgliadau Stryd.

2.7 Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw casglu manylion debyd uniongyrchol ar y stryd wedi'i reoli gan Ddeddf 1916. Fodd bynnag cynghorir y fath gasglwyr i ystyried y cyngor a roddir gan y Gymdeithas Rheoli Codi Arian Cyhoeddus. Gellir dod o hyd i'r cyngor hwn yn www.pfra.org.uk

## 3 Clustnodi Dyddiau Casgliadau Stryd

3.1 Y mannau dynodedig ar gyfer Casgliadau Stryd yn Sir Ddinbych fydd strydoedd a/neu fannau cyhoeddus yn nhrefi Bodelwyddan, Corwen, Dinbych, Llangollen, Prestatyn, Rhuddlan, yn Rhyl, Arena Digwyddiadau y Rhyl, Rhuthun a Llanelwy. Bydd y Cyngor hefyd yn caniatáu casgliadau mewn mannau eraill yn y Sir, yn cynnwys y pentrefi cyfagos.

3.2 Ni chaniateir Casgliadau Stryd yn ar unrhyw ran o unrhyw Bromenâd yn y sir, pa un a yw hynny i ddibenion elusennol neu ddibenion eraill. Fodd bynnag gellir gwneud eithriadau os yw'r casgliad elusennol yn rhan o ddigwyddiad cenedlaethol/sirol mwy a'r casglwyr ddim ond yn pasio drwy'r ardal.

3.3 Bydd y Cyngor yn caniatáu uchafswm o un casgliad fesul tref bob wythnos, h.y. ni chaniateir i fwy nag un sefydliad gasglu yn yr un ardal ar yr un diwrnod heblaw gyda chaniatâd ysgrifenedig y Cyngor os yw'r cais yn dod o dan yr eithriadau a nodir yn 3.7 isod.

3.4 Bydd Casgliadau Stryd yn cael eu cyfyngu i ddyddiau Sadwrn gydag un eithriad sef y caniateir casgliadau ar ddyddiau eraill o'r wythnos os yw'r casgliad hwnnw'n gysylltiedig â digwyddiad wedi'i drefnu'n genedlaethol neu'n rhanbarthol fel y nodir yn 3.7 isod.

3.5 Er mwyn rhoi cyfle i gymaint o sefydliadau ag sydd bosibl gasglu, ni fydd unrhyw sefydliad unigol yn cael caniatâd i gasglu fwy nag unwaith mewn unrhyw un dref mewn unrhyw flwyddyn galendr.

3.6 Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried ar sail 'y cyntaf i'r felin', er y bydd elusennau lleol neu elusennau gyda chysylltiad lleol yn cael blaenoriaeth. Mae'r eithriadau i hyn wedi'u nodi yn 3.7 isod.

3.7 Bydd yr eithriadau canlynol i'r polisi hwn yn berthnasol:

3.7.1 Caniateir ceisiadau i gasglu ar gyfer Apêl y Pabi a drefnir gan y Lleng Brydeinig Frenhinol am uchafswm o saith niwrnod ym mis Tachwedd bob blwyddyn.

3.7.2 Caniateir casgliadau cenedlaethol ar gyfer Plant Mewn Angen, Comic Relief a Sports Relief ar ddiwrnod yr apêl ei hun a'r diwrnod wedyn i gyd fynd a'r apêl.

3.7.3 Mae casglu cyfraniadau ariannol gan y cyhoedd ar hyd llwybr gorymdaith carnifal neu ddigwyddiad tebyg wedi'i eithrio.

3.7.4 Stondin elusennol mewn Marchnad Reoledig.

3.7.5 Casgliadau sy'n angenrheidiol os bydd trychinebau cenedlaethol neu ryngwladol.

3.7.6 Os yw'r casgliad elusennol yn rhan o ddigwyddiad cenedlaethol/sirol mwy a'r casglwyr ddim ond yn pasio drwy'r ardal.

## 4. Ffioedd a Thaliadau

4.1 Nid yw'r Cyngor yn codi unrhyw dâl am brosesu Trwyddedau Casgliadau Stryd.

## 5. Gwneud Penderfyniad

6.1 Wrth arfer ei ddisgresiwn i gynnal ei swyddogaethau rheoli bydd y Cyngor yn talu sylw i'r ddogfen bolisi hon a'r egwyddorion a nodir ynddi.

6.2 Er gwaethaf bodolaeth y Polisi hwn, bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun yn seiliedig ar yr egwyddorion trwyddedu a nodir yn y Polisi hwn.

6.3 Os bydd yn angenrheidiol i'r Cyngor wyro'n sylweddol oddi wrth y Polisi hwn, rhaid rhoi rhesymau clir a chymhellol dros wneud hynny. Gall y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd awdurdodi gwyro oddi wrth y polisi yn unol â'r adran hon os yw ef/hi yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol dan yr amgylchiadau perthnasol.

6.4 Wrth ystyried a ddylid caniatáu Trwydded Casgliadau Stryd neu ddim, rhoddir ystyriaeth i:

- gysylltiad y casgliad a digwyddiadau penodol yn yr ardal
- cysylltiad y casgliad ag ymgyrch genedlaethol e.e. Plant Mewn Angen, Comic Relief, Sul y Cofio.
- os yw'r casgliad ar ran elusen genedlaethol, a oes tebygolrwydd y bydd rhywfaint o fudd i drigolion Sir Ddinbych yn sgil hynny.
- pa ganran o'r arian a gesglir fydd yn cael ei ddefnyddio i ddibenion elusennol
- a yw Cyngor Sir Ddinbych neu unrhyw awdurdod lleol arall wedi gwrthod trwydded yn flaenorol

## 7. Gwrthod Caniatau Trwydded

7.1 Nid oes unrhyw sail statudol dros wrthod cais am Drwydded Casgliadau Stryd. Fodd bynnag mae'r Cyngor yn neilltuo'r hawl i wrthod unrhyw gais am Drwydded Casgliadau Stryd ac mae'n debygol y bydd unrhyw doriad blaenorol o Reoliadau Casgliadau Stryd y Cyngor, neu unrhyw sail berthnasol/briodol arall yn golygu y bydd trwydded yn cael ei gwrthod.

Nid oes hawl ffurfiol i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad a wneir gan y Cyngor i ganiatáu neu wrthod cais am Drwydded Casgliadau Stryd, heblaw drwy Adolygiad Barnwrol. Fodd bynnag er tegwch gall ymgeisydd wneud cais i'r Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd bod y penderfyniad yn cael ei adolygu.

## 8 Cwyno

8.1 Pe bai gennych gŵyn am y ffordd y gwnaethom roi gwasanaeth gallwch gyflwyno'ch cwyn i'r Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd yn y cyfeiriad a roddir ar ddiwedd y ddogfen hon. Fel arall gallwch gysylltu â Swyddog Cwynion y Cyngor ar 01824 706169. Byddwn yn ymchwilio i bob cwyn ac yn ymateb yn unol â Pholisi Cwynion y Cyngor. Gellir gweld Polisi Cwynion y Cyngor ar y wefan: www.denbighshire.gov.uk.

## 9 Cysylltiadau

9.1 Mae'r polisi hwn ar gael yn Saesneg. Gellir cyflwyno copïau yn unrhyw iaith arall ar gais. Gweler y manylion cyswllt isod;

🖃 Yr Adran Drwyddedu, Blwch SB 63, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15
🖰 trwyddedu@sirddinbych.gov.uk
☎ 01824 706342

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 4 Rhagfyr 2019 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu)<br>trwyddedu@sirddinbych.gov.uk<br>01824 706433 |
| **TESTUN:** | Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol 2019/20 |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.2 Darparu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol arfaethedig 2020 i'r Aelodau.

**2. CRYNODEB GWEITHREDOL**

2.1 Mae'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol arfaethedig ar gael yn Atodiad A, i'r Aelodau ei hystyried a'i chymeradwyo.

**3. GWYBODAETH GEFNDIR**

3.1 Bydd yr Aelodau'n ymwybodol iddynt gymeradwyo Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol 12 mis o hyd yn un o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Trwyddedu fis Rhagfyr 2018.

3.2 Wrth ddrafftio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, mae Swyddogion wedi ystyried y polisïau sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Trwyddedu a dyddiadau adolygu'r polisïau hynny ynghyd ag unrhyw newid deddfwriaethol posib' a gynigir gan lywodraeth ganolog.

3.3 Oherwydd bod cyfarfod mis Medi wedi'i ganslo, mae'r swyddogion wedi aildrefnu'r materion i'w trafod, fel y manylir yn yr Atodiad ynghlwm.

3.4 Mae'r swyddogion yn gweithio ar Raglen Gwaith I'r Dyfodol 12 mis i'w chyflwyno i'r Aelodau yn ystod y cyfarfod nesaf ym mis Mawrth.

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1 Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol arfaethedig, fel y nodwyd yn yr Atodiad.

**Atodiad A**

**Pwyllgor Trwyddedu**

**Rhaglen Waith 2020**

| Dyddiad y Pwyllgor | Adroddiad | Sylw |
|---|---|---|
| **Mawrth 2020** | Polisi/Amodau Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat | Adolygu |
| | Yr wybodaeth ddiweddaraf am waith y Tîm Trwyddedu | Diweddariad |
| **Mehefin 2020** | Adolygu Lleoliadau Profi cymeradwy | Diweddariad ar yr adolygiad |
| | Polisi Dosbarthiad Ffilmiau | Adolygu |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag